
Met Office



# Collage stribedi hinsawddsawdd

Mae ein hinsawdd yn newid, ac un ffordd y gallwn ni ddangos hyn yw gwneud graffiau, mapiau neu luniau o ddata hinsawdd.

Efallai eich bod wedi sylwi ar y stribedi hinsawdd a ddatblygwyd gan yr Hinsoddegwr yr Athro Ed Hawkins gan ddefnyddio data'r Swyddfa Dywydd. Gan edrych bron fel celfyddydweithiau, mae'r diagramau trawiadol hyn yn dangos faint mae ein planed yn cynhesu. Mae'r ddelwedd hon, gyda'r blynyddoedd cynhesach ac oerach wedi'u darlunio mewn gwahanol liwiau, yn creu darlun clir o'r cynhesu hirdymor sy'n digwydd yn y DU a thu hwnt.

Beth am gymryd ysbrydoliaeth o'r graffigau unigryw hyn i wneud collage papur wedi'i ailgylchu **#ShowYourStripes?**

**Deunyddiau sydd eu hangen**

- Lluniau o gylchgronau, pamffledi a phecynnu
- Darnau o ruban
- Cerdyn tenau
- Glud
- Tâp
- Siswrn

Cyfarwyddiadau ar gyfer prosiectau crefft gan Daisy Fox



## Camau'r Gweithgaredd


**01** Cadwch rai lluniau lliw o gylchgronau, pamffledi a deunydd pecynnu. Ceisiwch ddod o hyd i luniau sy'n cynnwys lliwiau tebyg i'r stribedi hinsawdd - gleision, cochion, pincau ac ati..




**02** Gan ddefnyddio siswrn, torrwch y lluniau'n stribedi yn ofalus.



**03** Torrwch betryal hir o gerdyn tenau.




**04** Gan ddefnyddio'r Stribedi Hinsawdd sy'n seiliedig ar y DU fel cyfeirnod (gweler y llun isod ar y chwith), parwch eich stribedi â'r lliwiau ar y graff a'u gludo ar eich cerdyn. Defnyddiwch rai stribedi o ruban tenau hefyd os dymunwch.






**05** Pan fydd eich cerdyn yn llawn, plygwch bennau'r papur a'r rhuban i'r cefn a'u tapio i lawr



**06** Pan fyddwch chi wedi gorffen, beth am ddod o hyd i'r stribedi ar gyfer gwahanol leoliadau, a gwneud collage arall? Gallwch archwilio'r stribedi o gyfandiroedd, gwledydd neu hyd yn oed dinasoedd eraill yma.



Mae'r Swyddfa Dywydd yn darparu cynnwys addysg am ddim i gefnogi pobl ifanc 7-14 oed i fod yn barod ar gyfer effeithiau'r tywydd a newid hinsawdd arnyn nhw a'u cymunedau. Dysgwch ragor yn **www.metoffice.gov.uk/schools**

© Crown Copyright 2022, Met Office 02035